

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

# Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth 2019-20

## CYLCH GORCHWYL

### Cefndir

Yn ei chynllun gweithredu ar gyfer 2019-20, ymrwymodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i raglen o adolygiadau cenedlaethol, gan gynnwys gwasanaethau mamolaeth. Gwnaethom benderfynu cynnal yr adolygiad hwn oherwydd nifer o bryderon a godwyd ynghylch pwysau o fewn gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru, gan gynnwys y materion a nodwyd yn ystod arolygiad AGIC o wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ym mis Hydref 2018<sup>1</sup>.

Comisiynwyd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwraedd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2018 i gynnal adolygiad annibynnol o'r gofal cleifion a roddwyd gan hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<sup>2</sup>. Roedd hyn yn dilyn pryderon difrifol a ddaeth i'r amlwg yn wreiddiol o ganlyniad i achosion o dangofnodi digwyddiadau difrifol mewn gwasanaethau mamolaeth. Codwyd nifer o bryderon sylweddol yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019 ynghylch staffio, prosesau, a'r diwylliant sylfaenol mewn gwasanaethau mamolaeth, a gafodd effaith andwyol ar ofal. O ganlyniad, gwnaed gwasanaethau mamolaeth yn y bwrdd iechyd yn destun mesurau arbennig ym mis Ebrill 2019.

Ers ei gyhoeddi, ac o ystyried difrifoldeb y sefyllfa, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AS, wedi ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ystyried eu gwasanaethau eu hunain yng nghyd-destun argymhellion yr adroddiad ac i ddarparu sicrwydd ar unwaith yn hyn o beth.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phenaethiaid bydwreigiaeth, cyfarwyddwyr clinigol a phwyllgorau cyswllt gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad defnyddwyr i sicrhau bod y gwersi a ddysgir o'r adroddiad hwn yn llywio'r camau

<sup>1</sup> <http://hiw.org.uk/docs/hiw/inspectionreports/210119royalglamorganmaternityen.pdf>

<sup>2</sup> Ers 1 Ebrill 2019, disodlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, yn dilyn penderfyniad i gynnwys ardal Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o'r bwrdd iechyd.

gweithredu yng Nghymru mewn perthynas â datblygu gweledigaeth pum mlynedd newydd ar gyfer gwasanaethau mamolaeth<sup>3</sup>.

Ym mis Ebrill 2017, o dan fodel newydd ar gyfer goruchwyliaeth glinigol, rhoddwyd cyfrifoldeb i'r byrddau iechyd dros oruchwyllo bydwagedd sy'n ymarfer yng Nghymru (yn flaenorol, yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol i Fydwagedd oedd yn gyfrifol am hyn). Ers y newid hwn, cafodd y broses o oruchwyllo bydwagedd ei rheoli gan fyrddau iechyd ar lefel leol yn hytrach nag ar lefel genedlaethol. Felly, teimlwyd bod adolygiad annibynnol o wasanaethau mamolaeth yn amserol.

Bydd adolygiad AGIC yn darparu darlun cenedlaethol o ansawdd a diogelwch gwasanaethau mamolaeth y GIG ledled Cymru. Bydd y gwaith hwn yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ac yn helpu i wella gwasanaethau i fenywod a'u teuluoedd. Dechreuodd cam cyntaf yr adolygiad ym mis Mehefin 2019, a chaiff cam dau ei gwmpasu a'i gynllunio yn dilyn y gwaith hwn. Ceir manylion pellach am y camau yn y ddogfen hon.

## Cynnydd

Byddwn yn cyhoeddi Cam Un o'n Hadolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth yn ystod mis Tachwedd 2020. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y themâu a'r negeseuon allweddol sydd wedi deillio o'r [Cylch Gorchwyl](#).

- Y rhaglen helaeth o arolygiadau o unedau mamolaeth ledled Cymru
- Ein harolwg mamolaeth cenedlaethol a ddatblygwyd ar y cyd â'r Cynghorau Iechyd Cymuned
- Ein harolwg staff o'r rhai hynny sy'n gweithio mewn gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru
- Cyfweiliadau gyda phersonél allweddol o bob bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau mamolaeth a'r trefniadau llywodraethu ar eu cyfer.

## Gweithgarwch arall sydd wedi'i drefnu

Gwnaeth Cam Un o'r adolygiad hefyd nodi rai materion mewn perthynas ag agweddau ar ofal mamolaeth a oedd y tu hwnt i gwmpas gwreiddiol yr adolygiad cenedlaethol. O ganlyniad, rydym o'r farn ei bod yn werth canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth bellach o'r materion penodol hyn yn ystod Cam Dau. Mae'r meysydd allweddol hyn y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Gofal Cynenedigol – er mwyn ystyried ansawdd y gofal a ddarperir gan dimau bydwagedd cymunedol
- Gofal Ôl-enedigol – er mwyn ystyried y cyfnod ar ôl yr enedigaeth a hyd at y cam lle daw Ymwelwyr Iechyd yn rhan o'r broses

---

<sup>3</sup> <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyhoeddi-gofal-mamolaeth-yng-nghymru-gweledigaeth-5-mlynedd-ar-gyfer-y>

- Gwaith dilynol ar rai o'r arolygiadau a gynhaliwyd fel rhan o Gam Un, er mwyn deall pa gynnydd sy'n cael ei wneud

Bydd Cam Dau unwaith eto yn ceisio ystyried y canlynol mewn perthynas â'r uchod:

- Profiad menywod, eu partneriaid a'u teuluoedd.

Bydd hefyd yn ystyried i ba raddau y mae byrddau iechyd ledled Cymru yn gwneud y canlynol:

- Darparu gwasanaethau mamolaeth diogel ac effeithiol
- Deall cryfderau eu gwasanaethau mamolaeth cymunedol a'r meysydd i'w gwella.

### **Dull Gweithredu a Methodoleg**

Mae'r cyfnod cynenedigol ac ôl-enedigol yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl yr enedigaeth yn adegau pwysig i'r fam a'r babi, a gall fod yn gymhleth ar adegau. Ar gyfer Cam Dau, byddwn yn casglu gwybodaeth ac yn adolygu gwasanaethau cynenedigol ac ôl-enedigol ledled Cymru. Byddwn yn gwrando ar brofiadau menywod, eu partneriaid a'u teuluoedd er mwyn deall eu profiad o ddefnyddio gwasanaethau ymhellach.

Er mwyn llywio Cam Dau, byddwn yn adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd drwy ein gwaith hyd yma. At hynny, byddwn yn cynnal gwaith sicrwydd dilynol ar gyfer detholiad o arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod Cam Un o'n hadolygiad, er mwyn penderfynu a yw camau gweithredu wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt yn unol â'r argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad. Er mwyn cael y sicrwydd hwn, efallai y bydd angen i ni gynnal rhywfaint o weithgarwch arolygu dilynol ar y safle. Gwneir unrhyw benderfyniadau i gynnal yr arolygiadau hyn ar sail asesiad risg a gwybodaeth, gan ystyried y sefyllfa bresennol o ran pandemig COVID-19.

Wrth ymgymryd â Cham Dau, byddwn yn ystyried y canlynol:

- Amrywiaeth o wybodaeth a data mewn perthynas â gwasanaethau cynenedigol ac ôl-enedigol ledled Cymru, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am bryderon a ddelir gan AGIC a Llywodraeth Cymru.
- Gwybodaeth a ddarperir gan bob bwrdd iechyd o ran gwasanaethau mamolaeth cymunedol
- Tystiolaeth a gasglwyd yn ystod gwaith maes Cam Un, ynghyd ag arolygon staff ac arolygon o'r cyhoedd
- Gwybodaeth a gesglir drwy ddulliau casglu data amrywiol gan gynnwys drwy fynychu dosbarthiadau cynenedigol ac ôl-enedigol, a chynnal grwpiau ffocws ar themâu fel dosbarthiadau cynenedigol, grwpiau cymorth bwydo ar y fron a grwpiau mam a'i babi.

## **Gweithio gydag eraill**

Bydd AGIC yn parhau i weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y Cyngorau Iechyd Cymuned a sefydliadau trydydd sector, i ymgysylltu â menywod, eu partneriaid a'u teuluoedd er mwyn deall eu profiadau o wasanaethau mamolaeth ledled cymunedau Cymru.

Bydd AGIC yn cydgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn ar adegau allweddol drwy gydol yr adolygiad, er mwyn rhannu cynlluniau a sicrhau bod unrhyw gyfleoedd i gydweithio yn cael eu hystyried er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion yn ddiangen ac i rannu canfyddiadau ar ôl cwblhau gwaith maes.

## **Cynllunio ac Amserlenni**

Ein bwriad ar hyn o bryd yw cynnal Cam Dau o'r adolygiad cenedlaethol rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Mawrth 2021, gan anelu at gyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau erbyn haf 2021. Rydym yn ymwybodol y bydd yr amserlenni hyn o bosibl yn dibynnu ar effaith pandemig COVID-19 a phwysau'r gaeaf.

## **Adrodd**

Rydym yn gobeithio llunio adroddiad terfynol ar yr Adolygiad Mamolaeth Cenedlaethol erbyn haf 2021. Adroddiad unigol fydd yr adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau Cam Dau, a'r cynnydd a wnaed gan wasanaethau ers Cam Un.

Bydd tudalen we bwrpasol ar gyfer yr adolygiad mamolaeth yn parhau i gael ei chyhoeddi ar wefan AGIC, a fydd yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau allweddol yr adolygiad. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol terfynol, caiff gweithgarwch dilynol ei ystyried, a bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal digwyddiad dysgu ym mis Rhagfyr 2020.

## **Y Tu Hwnt i'r Cwmpas**

Rydym wedi nodi nifer o feysydd yn ystod yr adolygiad cenedlaethol y gall fod angen eu harchwilio ymhellach yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl eu cynnwys fel rhan o gwmpas yr adolygiad hwn:

- Amgylchedd, gweithdrefnau a threfniadau cyn-asesu theatrau obstetrig
- Gofal newydd-anedig.